

Manyleb Swydd

Teitl Swydd:	Rheolwr Datblygu: Sector Bwyd
Prosiect:	Cywain
Adran:	Datblygu Bwyd
Lleoliadau:	Aberystwyth. Ystyrir lleoliadau eraill
Rheolwr Llinell:	Arweinydd Tîm - Cefnogaeth ar gyfer Busnesau Bychain a Meicro
Graddfa:	5
Cyflog:	£30,278-£32,300 (60%: Cymorth ar gyfer Busnesau Bach a Micro) £32,300-£34,320 (20%: Cynllun Grant Twf Busnes Strategol)
Cytundeb:	Rhan-amser – 80%
Sgiliau Dwyieithog:	Hanfodol

Dyma gyfle gwyh i weithio ar brosiect o fewn y diwydiant bwyd a diod ffyniannus yng Nghymru sy'n hanfodol i dwf yr economi yng Nghymru.

O ganlyniad i gynydd mewn galw am gefnogaeth y prosiect, mae Cywain yn chwilio am Reolwr Datblygu i weithio ar draws canolbarth Cymru i gefnogi busnesau bychain a micro i ddechrau ac i dyfu.

Cefndir

Mae Cywain, a ddarperir gan Menter a Busnes, yn fodel sy'n rhoi cymorth wedi'i dargedu i fusnesau bach a chanolig a micro yn y sector bwyd a diod yng Nghymru. Rydym yn cychwyn cam newydd erbyn hyn ac rydym wedi derbyn arian drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014- 2020. **Mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer y prosiect tan fis Hydref 2022.**

Mae cefnogaeth yn cael ei ddarparu i ddatblygu capasiti a gallu busnesau, hwyluso trosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiant, yn ogystal â chryfhau eu hintegreiddiad yn y gadwyn gyflenwi. Darperir gwasanaethau ledled Cymru gyda phwyslais ar gydweithio gyda busnesau sy'n ychwanegu gwerth a datblygu'r farchnad er mwyn tyfu a chreu swyddi. Mae Cywain wedi datblygu rhwydwaith eang o randdeiliaid ac, yn ganolog i ddatblygiad y cleient, mae gennym agwedd gydlynol tuag at weithio gyda phartneriaid darparu eraill.

Mae tri llinyn i'r prosiect:

- Cefnogaeth i fusnesau newydd a busnesau micro

- Cefnogaeth ddiagnostig ar gael i bob busnes o fewn y sector bwyd a diod yng Nghymru
- Clystyru a chydweithio rhwng busnesau i hybu effeithiolrwydd a thwf busnesau

Un o'r themâu o fewn y prosiect yw datblygu cyfleoedd masnach i fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth yn y sector twristiaeth a lletygarwch. Mae'r Cynllun Grant Twf Busnes Strategol yn cynnig cefnogaeth ar gyfer digwyddiadau unigol a blynyddol sy'n cynnig cyfleoedd penodol ar gyfer bwyd a diod o Gymru (e.e. sioeau a gwyliau) lle mae'r gweithgaredd yn digwydd yng Nghymru. Ariennir y cynllun gan gronfeydd canolog Llywodraeth Cymru ac mae'n gynllun pwysig o safbwynt strategol ar gyfer datblygu llwyfan fasnach ar gyfer busnesau bwyd a diod. Er nad yw'r cynllun yn cael ei ariannu gan Cywain, mae'n bwysig bod y ddarpariaeth yn gysylltiedig.

Nod y Rôl

- Arwain ar ddatblygu'r prosiect a darparu'r gwasanaeth i fusnesau newydd neu'r rhai sy'n tyfu'n bennaf o fewn yr ardal ddaearyddol benodol a darparu arbenigedd sy'n benodol i'r sector bwyd a diod. Disgwylir i ddeiliad y swydd ddarparu gwybodaeth a hwyluso datblygiad busnesau yn y rhanbarth, adnabod ac ymateb i ofynion y sector a chydlynu'r ddarpariaeth o fewn y gyllideb.
- Arwain y gwaith o reoli a darparu cynllun ar ran Llywodraeth Cymru, gan ddarparu cyllid ar gyfer digwyddiadau bwyd a diod sy'n bodloni meini prawf penodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu'r cynllun, rheoli'r gyllideb a monitro/gwerthuso effaith.

Prif Gyfrifoldebau

Datblygu Prosiect a Darparu Gwasanaeth

- Sicrhau bod gwasanaethau'r prosiect yn cael eu darparu i gynhyrchwyr a busnesau bwyd a diod o fewn yr ardal benodol
- Meithrin perthynas agos gyda chynhyrchwyr a phroseswyr i ganfod eu hanghenion ar gyfer twf drwy asesiad diagnostig a chreu rhaglen gefnogaeth briodol
- Recriwtio grwpiau ac unigolion ar draws y gadwyn gyflenwi i'r prosiect gan ganolbwyntio ar y potensial ar gyfer twf a chreu swyddi
- Gweithio gyda grwpiau o gynhyrchwyr ac unigolion i ganfod a datblygu cynnyrch a marchnadoedd newydd
- Paratoi cynllun gweithredu a chynnal asesiad diagnostig ar ddechrau'r gwaith gyda phob grŵp unigolyn a rheoli'r adnoddau o fewn cyllideb y prosiect
- Cydlynu gweithgaredd a rhannu gwybodaeth sy'n deillio o fentrau thematig y rhaglen yn yr ardal, gan sicrhau cyfraniad gan y cleient lle bo angen

- Creu cysylltiadau gydag unigolion, busnesau a chyrrff eraill sy'n ymwneud ag arloesedd, datblygu cynnyrch a datblygu marchnadoedd newydd er mwyn sicrhau darpariaeth gydlynol
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Llinell, Rheolwr y Prosiect a'r Rheolwyr Datblygu eraill i gynllunio, rheoli a gweithredu portffolio o ddigwyddiadau/arddangosfeydd a theithiau astudio yn lleol ac yn genedlaethol, gan sicrhau cynnwys perthnasol a diddorol
- Trefnu a darparu gweithdai ar themâu penodol o fewn y rhanbarth
- Adnabod anghenion, cynllunio a chynghori busnesau ynglŷn â'u datblygiad, gan gyfeirio at ffynonellau eraill o gefnogaeth lle bo'n briodol
- Annog perchnogaeth o'r busnes a'i ddatblygiad trwy gydol y broses gefnogi gan yr aelodau
- Rheoli a monitro'r gyllideb a osodir gan Reolwr y Prosiect, gan sicrhau gwerth am arian a darpariaeth ar y cyd lle bo hynny'n ymarferol
- Derbyn cyfrifoldeb am bob gweithgaredd a datblygiad cleientiaid yn y rhanbarth a sicrhau bod targedau daearyddol yn cael eu cyrraedd
- Parhau i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o arbenigeddau eraill, gan sicrhau darpariaeth o wasanaethau holistig i'r cwsmer, gydag ymrwymiad i gynnal unrhyw waith ymchwil a dysgu a datblygu sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r anghenion hynny
- Bod yn weladwy ac yn hyblyg wrth ddarparu'r gwasanaeth yn y rhanbarth

Monitro a Gwerthuso

- Sicrhau bod adroddiadau cywir a pherthnasol yn cael eu darparu trwy gydol oes y prosiect a bod deilliannau'n cael eu monitro'n fanwl, yn cael eu hadolygu a'u hadrodd i'r Rheolwr Prosiect a Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion y cytundeb, ac er mwyn bodloni gofynion archwilio perthnasol
- Cadw adroddiadau manwl o weithgareddau a gwaith papur er mwyn monitro a chyrraedd targedau'r prosiect i gydymffurfio â systemau monitro ac adrodd Llywodraeth Cymru
- Cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr holl ddogfennau ar gyfer y gwaith a gwblhawyd yn gyfredol ac wedi'i gwblhau yn unol â gofynion y cynllun
- Cynhyrchu adroddiad terfynol ar ddiwedd y gwaith gyda phob grŵp/unigolyn, sy'n adrodd ar gryfderau a gwendidau'r gweithgaredd/cymorth a dderbyniwyd

Cynllun Grant Twf Busnes Strategol

- Rheoli a darparu rhaglen gefnogaeth ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer digwyddiadau bwyd a diod yn unol â meini prawf a gytunwyd
- Gweithredu fel prif bwynt cyswllt ar gyfer y cynllun, gyda chyfrifoldeb dros bob agwedd o gyhoeddusrwydd, asesu a gwerthuso'r cynllun, yn ogystal â gwirio ac awdurdodi hawliadau arianno
- Rheoli unrhyw isgcontractwyr a staff angenrheidiol er mwyn darparu'r cynllun yn effeithiol
- Monitro a gwerthuso'r cynllun a darparu gwybodaeth amserol a chywir i

- Lywodraeth Cymru er mwyn gallu penderfynu ar ba ddigwyddiadau i'w cefnogi
- Bod yn gyfrifol am reoli cyllideb flynyddol y cynllun fel y caiff ei gosod a'i hadolygu drwy gydol blwyddyn y cynllun. (Mae'r gyllideb bresennol oddeutu £120,000)
 - Arwain ar weithgareddau ychwanegol a geisir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darpariaeth y cynllun ac ymgysylltiad gyda threfnwyr digwyddiadau gan gynnwys trefnu a chynnal gweithdai wedi'u teilwra a/neu ddigwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid
 - Sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda staff Cywain perthnasol yn ymwneud â chysylltiadau strategol i wneud y gorau o gyfleoedd datblygu masnach ar gyfer busnesau newydd neu fusnesau sy'n tyfu yn ystod digwyddiadau a gefnogir

Arall

- Sicrhau bod safonau ansawdd, gofal cwsmer, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch a bioddiogelwch yn cael eu bodloni
- Derbyn unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill, a chymryd rhan mewn gwaith arall yn ymwneud â bwyd ar ran Menter a Busnes yn ôl yr angen
- Cynrychioli Menter a Busnes yn ôl yr angen

Sgiliau a Phrofiad

Hanfodol

- Addysg hyd lefel gradd neu gyfwerth mewn busnes, economeg, amaeth, bwyd, diwydiannau'r tir, neu bwnc perthnasol
- Dealltwriaeth drylwyr o'r sectorau amaeth a diwydiannau'r tir yng Nghymru, gyda'r gallu i adnabod y wybodaeth a'r gwaith ymchwil sy'n berthnasol i'r sector(au) hynny
- Dealltwriaeth eang o ddatblygiad polisi, yn ogystal â strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru.
- Dealltwriaeth dda a/neu brofiad dangosadwy o weithio gyda chynhyrchwyr bwyd cynradd a'r sector preifat
- Profiad dangosadwy o reoli cleientiaid ac ymgysylltu gyda chleientiaid / busnesau naill ai wyneb i wyneb, dros e-bost neu dros y ffôn.
- Gallu gwerthuso a defnyddio tystiolaeth mewn modd clir ac ymarferol sy'n berthnasol i'r gynulleidfa ac i feddwl yn greadigol, gan fynegi manteision, anfanteision a risgiau gwahanol opsiynau
- Gallu asesu a datblygu dealltwriaeth glir o anghenion cleientiaid, a'u cefnogi yn unol â'u gofynion unigol
- Dealltwriaeth dda o gyfrifon busnes a chynlluniau busnes
- Sgiliau a phrofiad o ddatblygu rhwydweithiau gwych ar wahanol lefelau (e.e. cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol) o fuddiolwyr posibl i bobl broffesiynol mewn sefydliadau partneriaeth
- Sgiliau trefnu a chydlynu rhagorol, gyda phrofiad o drefnu arddangosfeydd a digwyddiadau

- Gallu datblygu ac integreiddio gwasanaethau newydd mewn modd effeithiol ac amserol
- Sgiliau cyflwyno a rhyngpersonol rhagorol, gyda'r gallu i wneud penderfyniadau anodd a'u cyfathrebu mewn modd diduedd
- Gallu cymell ei hun, a derbyn cyfrifoldeb dros osod ac adolygu blaenoriaethau ar gyfer cyflawni targedau, gyda ffocws clir ar ansawdd
- Ymwybyddiaeth o safonau bwyd a gofynion rheoliadol o fewn y diwydiant
- Sgiliau cyfathrebu dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) llafar ac ysgrifenedig ardderchog
- Sgiliau TG ar lefel uchel gan gynnwys pecynnau Microsoft, cronfeydd data a'r we
- Trwydded yrru lawn a defnydd o gar (gallai'r swydd olygu teithio ledled Cymru)
- Ar gael i weithio gyda'r nos a thros y penwythnos yn achlysurol.

Dymunol

- Profiad dangosadwy o redeg ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu
- Profiad dangosadwy o weithio / rheoli prosiect ar raddfa debyg

Gwneud Cais

Gallwch wneud cais am y swydd hon drwy gwblhau ffurflen gais a ffurflen cyfleoedd cyfartal (ar gael ar ein gwefan: www.menterabusnes.co.uk) a'u dychwelyd at swyddi@menterabusnes.co.uk.

Os hoffech sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd hon, cysylltwch â Dewi Evans ar 01970 631424

Cyfweliadau

Byddwn yn cynnal y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon yn swyddfa Menter a Busnes yn Aberystwyth ar 4 Mawrth 2019. Os nad yw'r dyddiad yma'n gyfleus, nodwch hynny ar eich ffurflen gais.

Dyddiad Cau

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: 10.00yb, 25 Chwefror 2019.

Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ceir copi o'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar ein gwefan.